Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Maint ysgolion ac effeithiolrwydd addysgol

## Rhagfyr 2013

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru.  Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol;
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- colegau arbenigol annibynnol;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau awdurdod addysg lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- Cymraeg i oedolion;
- dysgu yn y gwaith; a
- dysgu yn y sector cyfiawnder.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW   neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2013:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/cyhoeddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


**Cyflwyniad** **1**

**Cefndir** **1**

**Prif ganfyddiadau** **3**

**Ysgolion cynradd** **6**

Ysgolion cynradd mewn categori gweithgarwch dilynol ar gyfer 2010-2013 6
Canfyddiadau arolygu ysgolion cynradd ar gyfer 2010-2013 7
Deilliannau: safonau a lles 8
Darpariaeth: profiadau dysgu ac addysgu 10
Arweinyddiaeth a rheolaeth: arweinyddiaeth a gwella ansawdd 11

**Ysgolion uwchradd** **13**

Ysgolion uwchradd mewn categori gweithgarwch dilynol ar gyfer 2010-2013 13
Canfyddiadau arolygu ysgolion uwchradd ar gyfer 2010-2013 14
Deilliannau: safonau a lles 14
Darpariaeth: profiadau dysgu ac addysgu 18
Arweinyddiaeth a rheolaeth: arweinyddiaeth a gwella ansawdd 19

**Maint ysgolion ac amddifadedd** **20**

**Atodiad 1: Sail y dystiolaeth** **22**

**Atodiad 2: Nifer yr ysgolion a maint ysgolion** **23**

**Atodiad 3: Gweithgarwch dilynol 2010-2013** **25**

**Atodiad 4: Gwerth am arian** **27**

**Atodiad 5: Geirfa** **29**

**Awdur yr adroddiad cylch gwaith ac aelod o'r tîm** **29**

## Cyflwyniad

Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn i ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn y llythyr cylch gwaith blynyddol i Estyn ar gyfer 2012-2013 gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau. Mae Estyn wedi adrodd i Lywodraeth Cymru yn flaenorol ar ysgolion cynradd bach, mewn adroddiad a gyhoeddwyd yn 2006. Mae'r adroddiad hwn yn diweddaru'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwnnw ac mae ganddo gwmpas ehangach.

Mae'r adroddiad yn edrych ar effeithiolrwydd addysgol ysgolion bach, canolig a mawr ar sail canfyddiadau arolygu o'r cylch presennol o arolygiadau (2010-2013) ac ar ganlyniadau arholiadau ac asesiadau. Mae'n edrych ar ddeilliannau, darpariaeth ac arweinyddiaeth ysgolion o feintiau gwahanol ac yn canolbwyntio ar ddangosyddion ansawdd arolygu sy'n ymwneud â safonau, lles, profiadau dysgu, addysgu, arweinyddiaeth a gwella ansawdd.

Mae nifer o ffactorau a all ddylanwadu ar berfformiad ysgol yn ogystal â maint ysgol. Mae amddifadedd yn un ffactor pwysig a all effeithio ar berfformiad ysgol, ac rydym yn ystyried ei effaith yn yr adroddiad hwn.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru, penaethiaid a staff mewn ysgolion ac awdurdodau lleol. Mae'r adroddiad yn defnyddio ystod y dystiolaeth a nodir yn Atodiad 1.

## Cefndir

Mae nifer o ddiffiniadau o ysgolion bach, ond prin yw'r diffiniadau o ysgolion canolig neu fawr. Ar gyfer yr adroddiad hwn, diffinnir ysgolion bach fel y rhai gyda 100 neu lai o blant o oedran ysgol statudol yn ôl datganiad y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). Mae tua 30% o ysgolion cynradd yng Nghymru yn fach yn ôl y diffiniad hwn. Mae ysgolion cynradd bach wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig yn bennaf ac mae rhai ohonynt mewn ardaloedd trefol. Caiff tua 10% o ddisgyblion ysgol gynradd eu haddysgu mewn ysgolion cynradd bach. Ysgolion sydd â llai na 30 o ddisgyblion yw ysgolion bach iawn. Bron ym mhob achos, nid oes gan ysgolion bach iawn fwy na dau athro ac un o'r rhain yw pennaeth sydd â chyfrifoldeb addysgu.

Caiff ysgolion cynradd canolig eu diffinio fel y rhai sydd â rhwng 101 a 300 o ddisgyblion ac mae gan ysgolion cynradd mawr 301 o ddisgyblion ac yn uwch. Mae tua 15% o ysgolion cynradd yng Nghymru yn fawr ac fe gaiff tua thraean o ddisgyblion ysgol gynradd eu haddysgu yn yr ysgolion cynradd mawr hyn.

Diffinnir ysgolion uwchradd bach fel y rhai sydd â 600 o ddisgyblion neu lai, mae gan ysgolion uwchradd canolig rhwng 601 a 1,100 o ddisgyblion, ac mae gan ysgolion uwchradd mawr 1,101 o ddisgyblion neu fwy. Mae ychydig dros 20% o ysgolion uwchradd yng Nghymru yn fach ac fe gaiff tua 10% o ddisgyblion ysgol uwchradd eu haddysgu yn yr ysgolion hyn. Mae tua 25% o ysgolion uwchradd yn fawr ac fe gaiff 37% o ddisgyblion ysgol uwchradd eu haddysgu yn yr ysgolion hyn.

Rhoddir mwy o fanylion ar nifer yr ysgolion a nifer y disgyblion ym mhob categori maint yn Atodiad 2.

## Gwaith blaenorol Estyn

Dyma oedd canfyddiadau adroddiad Estyn yn 2006[1] ar ysgolion bach yng Nghymru:

- nid oes llawer o wahaniaeth yn y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion nac yn ansawdd yr addysg a ddarperir gan ysgolion bach o gymharu ag ysgolion eraill; yn gyffredinol, nid yw ysgolion bach yn gwneud cystal ag ysgolion eraill ym meysydd arweinyddiaeth a rheolaeth, datblygiad staff a chynllunio'r cwricwlwm;

- yn benodol, mewn ysgolion bach, pan fydd gan y pennaeth ymrwymiad addysgu sylweddol, mae llai o amser ar gyfer tasgau arwain a rheoli;

- prin yw'r gwahaniaethau yn ansawdd yr addysgu rhwng ysgolion bach ac ysgolion eraill. Fodd bynnag, y lleiaf yw'r ysgol, y mwy heriol yw hi'n aml i'r athro weddu gwaith yn unol ag anghenion dysgu pob disgybl. Y rheswm am hyn yw bod yn rhaid i athrawon yn yr ysgolion hyn addysgu disgyblion o oedrannau a chyfnodau datblygu sy'n amrywio'n eang yn yr un dosbarth;

- mae ethos da neu dda iawn mewn llawer o ysgolion bach, beth bynnag fo'u maint. Yn y rhan fwyaf o ysgolion bach, mae staff yn gweithio gyda synnwyr clir o ddiben; ac

- mae'r bartneriaeth rhwng rhieni ac ysgolion bach yn dda ar y cyfan. Mae ansawdd a graddau cyfraniad rhieni at fywyd ysgol ar eu gorau yn yr ysgolion lleiaf. Yn aml, mae agosatrwydd arbennig yn datblygu rhwng yr ysgolion lleiaf a'r rhieni, sy'n cyfrannu mewn modd cadarnhaol at fywyd yr ysgol.

Yn 2008, cyflwynodd Estyn dystiolaeth i is-bwyllgor Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru, a nododd:

- yn gyffredinol, nid oes mantais i ddisgyblion mewn perthynas â'r safonau a gyflawnir mewn ysgolion cynradd neu uwchradd bach o gymharu ag ysgolion eraill. Er bod amrywiad mewn perfformiad rhwng ysgolion unigol, nid oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r farn fod maint yn ffactor arwyddocaol. Mae ansawdd arweinyddiaeth ac addysgu yn ffactor pwysicach na maint cyffredinol ysgol; ac

- yn gyffredinol, mae ysgolion bach yn wynebu mwy o bwysau ym meysydd arweinyddiaeth a rheolaeth, datblygiad staff a chynllunio'r cwricwlwm.

[1] Ysgolion cynradd bach yng Nghymru, 2006

## Prif ganfyddiadau

1 Mae’r adroddiad yn nodi gwahaniaethau ym mherfformiad ysgolion bach, canolig a mawr o ran barnau arolygu, a chanlyniadau arholiadau ac asesiadau. Mae’r gwahaniaethau’n fach ar y cyfan ac yn cynrychioli tueddiadau nad ydynt yn pennu perfformiad pob ysgol unigol. Gall ysgolion o bob maint berfformio’n dda neu’n wael.

2 Dengys yr adroddiad fod ysgolion cynradd ac uwchradd mawr yn tueddu i berfformio’n well nag ysgolion bach a chanolig. Ceir tystiolaeth gref[2] bod ysgolion uwchradd mewn ardaloedd breintiedig yn tueddu i berfformio’n well nag ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig, ond bod effaith yr anfantais yn wannach ar gyfer ysgolion cynradd. Mae dadansoddiad ystadegol o ddata arolygu, arholi ac asesu yn awgrymu bod ysgolion uwchradd mawr yn perfformio’n well ar gyfartaledd nag ysgolion uwchradd bach a chanolig gan eu bod yn tueddu i fod yn fwy breintiedig. Nid yw ffactorau’n ymwneud ag anfantais yn esbonio pam mae ysgolion cynradd mawr yn perfformio’n well nag ysgolion cynradd bach a chanolig.

3 Nodwedd gyffredin mewn ysgolion llwyddiannus yw arweinyddiaeth dda. Mae pob ysgol, beth bynnag fo’i maint, yn gallu perfformio’n dda lle mae ansawdd yr arweinyddiaeth yn dda neu’n rhagorol. Pan mae perfformiad cyffredinol ysgolion yn ddigonol neu’n anfoddhaol, mae gwendidau yn ansawdd yr arweinyddiaeth bron bob amser.

**Ysgolion cynradd**

4 Y duedd yw bod angen llai o weithgarwch dilynol ar ysgolion cynradd mawr ar ôl arolygiad nag ysgolion bach neu ganolig. Mae cyfran yr ysgolion cynradd yn y ddau gategori mwy difrifol o weithgarwch dilynol (gwelliant sylweddol a mesurau arbennig) yn debyg ar gyfer ysgolion cynradd bach a chanolig, ond mae’n is ar gyfer ysgolion cynradd mawr.

5 Mae deilliannau arolygu yn dda neu’n well mewn cyfran fwy o ysgolion cynradd mawr nag ysgolion cynradd bach a chanolig. Mae ysgolion cynradd bach a chanolig yn fwy tebygol o gael mwy o feysydd y mae angen eu gwella nag ysgolion cynradd mawr.

6 Mae safonau disgyblion yn dda neu’n well mewn cyfran uwch o ysgolion cynradd mawr nag ydynt mewn ysgolion cynradd bach a chanolig. Yn gyffredinol, bach yw’r gwahaniaeth yng nghanran y disgyblion sy’n cyflawni’r lefel ddisgwyliedig yn asesiadau athrawon y Cyfnod Sylfaen neu ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ar gyfer ysgolion o wahanol faint.

7 Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion cynradd safonau lles da neu well. Mae disgyblion yn cyflawni safonau lles da ym mhob ysgol gynradd fach iawn (y rhai sydd â 30 o ddisgyblion neu lai). Yn gyffredinol, mae gan ysgolion cynradd bach lefelau presenoldeb gwell nag ysgolion cynradd canolig a mawr.

[2] Mynd i’r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion: cydweithio â’r gymuned a gwasanaethau eraill, Estyn, 2011
Mynd i’r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion, Estyn, 2010
Cyflawniad Academaidd a’r Hawl i Gael Prydau Ysgol Am Ddim yng Nghymru, 2012, SB 32/2013, Llywodraeth Cymru

8 Mae darpariaeth y cwricwlwm yn well mewn ysgolion cynradd mawr. Mewn ysgolion bach, mae diffygion yn tueddu i fod yn narpariaeth pynciau sylfaen yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r diffygion hyn yn amrywio o un ysgol i'r llall, ond yn aml maent wedi'u cysylltu â bylchau yn arbenigedd y staff.

9 Mae ansawdd yr addysgu'n dda neu'n well mewn 80% o ysgolion cynradd at ei gilydd, ond mae'r addysgu'n dda neu'n well mewn 72% o ysgolion cynradd bach iawn. Yn yr ysgolion hyn, mae tri grŵp oedran neu fwy ym mhob dosbarth ac mae'n rhaid i athrawon gynllunio a chyflwyno gwersi sy'n bodloni anghenion disgyblion o ystod oedran a gallu eang.

10 Mae arweinyddiaeth a phrosesau i wella ansawdd fel arfer wedi'u datblygu'n well mewn ysgolion cynradd mawr. Mewn ysgolion cynradd bach, mae gan lawer o benaethiaid gyfrifoldeb addysgu sylweddol sy'n cyfyngu ar yr amser y gallant ei neilltuo i arwain a rheoli ac fe gânt lai o gyfleoedd i arfarnu safonau ac ysgogi gwelliant.

**Ysgolion uwchradd**

11 Mae angen llai o weithgarwch dilynol ar ysgolion uwchradd mawr ar ôl arolygiad nag ysgolion uwchradd bach a chanolig. Mae angen gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig ar ryw 4% o ysgolion uwchradd mawr, o gymharu â thua 20% o ysgolion bach a chanolig.

12 Mae canlyniadau arholiadau ar gyfer ysgolion uwchradd mawr yn well na'r canlyniadau ar gyfer ysgolion uwchradd bach a chanolig ar gyfer bron pob un o'r mesurau.

13 Mae lles yn rhagorol mewn 33% o ysgolion uwchradd mawr o gymharu ag 14% o ysgolion uwchradd canolig a 4% o ysgolion uwchradd bach. Mae presenoldeb yn debyg ar gyfer ysgolion uwchradd bach a chanolig, ond yn well mewn ysgolion uwchradd mawr. Mae ysgolion uwchradd mawr yn tueddu i gael gweithdrefnau mwy cynhwysfawr ar gyfer monitro presenoldeb ac ar gyfer mynd i'r afael ag absenoldebau parhaus.

14 Mae ansawdd yr addysgu mewn ysgolion uwchradd bach a chanolig yn eithaf tebyg. Mae'n gryfach mewn ysgolion uwchradd mawr. Mae ysgolion mawr yn tueddu i gael trefniadau gwell ar gyfer datblygiad proffesiynol a sicrhau ansawdd, er nad yw'r systemau hyn wedi'u datblygu cystal mewn ysgolion bach a chanolig. Mae athrawon mewn ysgolion bach yn llai tebygol o addysgu eu pwnc arbenigol yn unig.

15 Yn gyffredinol, mae darpariaeth y cwricwlwm yn ehangach ac yn rhoi cydbwysedd gwell mewn ysgolion uwchradd mawr. Mae bron pob un o'r ysgolion uwchradd mawr yn darparu profiadau dysgu da neu well ar gyfer eu disgyblion, tra bod profiadau dysgu'n dda neu'n well ym mwyafrif yr ysgolion bach ac mewn llawer o ysgolion canolig. Gall ysgolion uwchradd mawr gynnig ystod ehangach o opsiynau oherwydd darbodion maint. Mae ysgolion bach a chanolig yn fwy dibynnol ar bartneriaethau 14-19 i ddarparu ystod addas o gyrsiau.

16 Mae arweinyddiaeth yn dda neu'n well bron ym mhob un o'r ysgolion uwchradd mawr a arolygwyd. Mae arweinyddiaeth yn dda neu'n well ym mwyafrif yr ysgolion canolig ac mewn llawer o ysgolion bach. Ym mhob ysgol lle mae perfformiad yn gryf, mae arweinyddiaeth yn dda neu'n well. Mewn ysgolion uwchradd bach a chanolig, gallai cynllunio dilyniant fod yn wan, a phan fydd aelodau allweddol o staff yn gadael yr ysgol, gall fod oedi rhy hir cyn y caiff eu set medrau ei ddisodli.

## Ysgolion cynradd

### Ysgolion cynradd mewn categori gweithgarwch dilynol ar gyfer 2010-2013

17 Er Medi 2010, pan fydd arolygwyr wedi nodi bod gan ysgol feysydd pwysig i'w gwella, maent wedi rhoi'r ysgol mewn un o bedwar math o gategori 'gweithgarwch dilynol':

- monitro gan yr awdurdod lleol;
- monitro gan Estyn;
- gwelliant sylweddol; neu
- fesurau arbennig.

18 Mae lefel yr arolygiadau dilynol yn ddibynnol ar nifer, pwys ac arwyddocâd y diffygion a nodwyd. Mae'r tabl isod yn dangos canran yr ysgolion cynradd ym mhob categori dilynol yn ôl maint yr ysgol.

**Ffigur 1: Ysgolion cynradd mewn categori gweithgarwch dilynol ar gyfer 2010-2013**

| Maint yr ysgol / niferoedd y disgyblion | Monitro gan Estyn neu'r awdurdod lleol | Mesurau arbennig neu welliant sylweddol | Cyfanswm mewn categori gweithgarwch dilynol |
|---|---|---|---|
| Bach – 100 neu lai | 46% | 6% | 53% |
| Canolig – 101 i 300 | 37% | 6% | 43% |
| Mawr – dros 300 | 32% | 1% | 33% |

19 Mae cyfran yr ysgolion y mae angen gweithgarwch dilynol arnynt yn cynyddu wrth i'w maint ostwng. Mae cyfran yr ysgolion y mae angen y lefel fwy difrifol o weithgarwch dilynol arnynt (gan fod angen gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig arnynt) yn debyg mewn ysgolion bach a chanolig, ond yn is mewn ysgolion mawr.


20 Pan fydd angen y lefelau hyn o weithgarwch dilynol ar ysgolion, fel arfer mae diffygion pwysig yn ansawdd yr arweinyddiaeth, yr effaith a gaiff arweinwyr ar safonau a darpariaeth a diffygion yn eu gallu i hyrwyddo gwelliant.

## Canfyddiadau arolygu ysgolion cynradd ar gyfer 2010-2013

21 Mae canfyddiadau o'r cylch presennol o arolygiadau yn y tabl isod yn dangos mai prin yw'r gwahaniaeth mewn safonau, lles neu ansawdd yr addysgu rhwng ysgolion cynradd bach a chanolig, er nad yw ysgolion bach yn gwneud cystal mewn rhai agweddau ar brofiadau dysgu, arweinyddiaeth a gwella ansawdd.

22 Mae gan ysgolion cynradd mawr ddeilliannau arolygu gwell ar gyfer pob dangosydd ansawdd nag ar gyfer ysgolion eraill. Mae ysgolion bach a chanolig yn fwy tebygol o gael meysydd pwysig y mae angen eu gwella nag ysgolion mawr.

**Ffigur 2: Canfyddiadau arolygu ysgolion cynradd ar gyfer 2010-2013**




## Deilliannau: safonau a lles

### Safonau

23 Mae safonau disgyblion yn dda neu'n well mewn cyfran uwch o ysgolion cynradd mawr nag ysgolion cynradd bach a chanolig. Efallai mai'r rheswm am hyn yw bod ysgolion mawr yn tueddu i gael mwy o arbenigedd a gallu i fynd i'r afael ag anghenion disgyblion sy'n fwy agored i niwed a disgyblion mwy abl a dawnus.

24 Mae deilliannau asesu yn y Cyfnod Sylfaen yn gwella yn ôl maint yr ysgol ar gyfer medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu. Prin yw'r gwahaniaeth rhwng ysgolion o wahanol feintiau o ran datblygiad mathemategol a phersonol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol. Mae'r gwahaniaethau rhwng ysgolion o wahanol feintiau ar y lefel uwch na'r disgwyl hefyd yn fach.

**Ffigur 3: Deilliannau lefel 5 ac yn uwch ar gyfer y Cyfnod Sylfaen neu lefel 6 neu'n uwch ar gyfer Dangosydd y Cyfnod Sylfaen, medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu mewn Cymraeg a Saesneg, datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol (a)**




Nodiadau:


(a) Mae dosbarthu maint ysgol yn seiliedig ar ddatganiad CYBLD 2012; roedd gan 1,336 allan o 1,412 o ysgolion cynradd yn CYBLD 2012 ddata ar ddeilliannau ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.

(b) Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen yn cynrychioli canran y disgyblion sy'n cyflawni deilliant 5 neu'n uwch mewn datblygiad personol a chymdeithasol, medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg/medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg a datblygiad mathemategol gyda'i gilydd.

25 Yn yr un modd, yng nghyfnod allweddol 2, prin yw'r gwahaniaeth yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel 4 ddisgwyliedig ym mhynciau craidd Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 mewn ysgol o bob maint. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg yn uwch mewn ysgolion mwy.

26 Yn gyffredinol, mae cyfran ychydig bach mwy o ddisgyblion yn cyflawni'r lefel uwch na'r disgwyl (lefel 5+) mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn ysgolion mawr o gymharu ag ysgolion canolig a bach. Mae cyfran uwch o ddisgyblion mewn ysgolion bach a mawr yn cyflawni lefel 5+ mewn Cymraeg na mewn ysgolion canolig.

**Ffigur 4: Canlyniadau cyfnod allweddol 2 ar lefel 4+ a lefel 5+ ar gyfer Saesneg, Cymraeg mamiaith, mathemateg a gwyddoniaeth a'r dangosydd pwnc craidd (DPC) rhwng 2010- 2012 ar gyfer ysgolion cynradd bach, canolig a mawr (a)**




Nodiadau:
(a) Mae dosbarthu maint ysgol yn seiliedig ar ddatganiad CYBLD.

## Lles

27 Mae lles disgyblion yn dda neu'n well mewn tua 95% o'r holl ysgolion cynradd ac ym mhob ysgol fach iawn (30 o ddisgyblion neu lai). Gallai hyn adlewyrchu'r pwyslais meithringar a bugeiliol cryf sy'n nodwedd mewn ysgolion bach iawn.

28 Bernir bod lles yn rhagorol mewn 15% o ysgolion cynradd mawr o gymharu ag 8% o ysgolion canolig a 3% o ysgolion bach. Gan amlaf, y nodweddion rhagorol yw presenoldeb uchel, ymddygiad eithriadol o dda, disgyblion yn cymryd rhan mewn mentrau sy'n hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, agweddau disgyblion at ddysgu, eu medrau cymdeithasol a'u medrau bywyd, a'u gallu i wneud penderfyniadau. Un o'r

nodweddion amlycaf yw'r pwyslais a roddir ar lais y disgybl a'r modd y mae disgyblion yn dylanwadu ar fywyd yr ysgol. Yn gyffredinol, po fwyaf yw'r ysgol, po fwyaf yw gallu'r staff i alluogi i'r arferion hyn gael eu datblygu, eu ffurfioli a'u hymgorffori.

29 Mae bron pob ysgol gynradd yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o ffyrdd iach o fyw a phwysigrwydd ymarfer corff. Mae canfyddiadau arolygu'n dangos mai bach yw'r gwahaniaeth yn ymddygiad disgyblion ar draws ysgolion o wahanol faint a bod bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

## Darpariaeth: profiadau dysgu ac addysgu

### Profiadau dysgu

30 Mae darpariaeth y cwricwlwm yn dda neu'n well mewn cyfran uwch o ysgolion cynradd mawr a chanolig na mewn ysgolion cynradd bach. Mae tua 7% o ysgolion cynradd mawr yn darparu profiadau dysgu rhagorol o gymharu â 4% o ysgolion cynradd canolig a 2% o ysgolion cynradd bach.

31 Mewn llawer o ysgolion cynradd mawr a chanolig ac ym mwyafrif yr ysgolion bach, mae'r cwricwlwm wedi'i gynllunio'n dda ac yn datblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion yn systematig trwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol. Caiff disgyblion eu haddysgu i ddatblygu eu medrau ymchwil ac ymarferol yn dda.

32 Mewn ysgolion cynradd mawr a chanolig, gallai fod yn fwy tebygol bod staff yn meddu ar ystod ehangach o arbenigedd a gwybodaeth am themâu, testunau a phynciau penodol a all gyfoethogi'r cwricwlwm i'r disgyblion. Gallai fod mwy o gyfleoedd i rannu arfer dda rhwng dosbarthiadau hefyd. Gall ysgolion cynradd mawr a chanolig hefyd nodi anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn well yn gynnar a gwneud yr addasiadau angenrheidiol yn y ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion hynny. Mae hyn yn aml am fod ganddynt athrawon sy'n gwybod ac yn deall am anghenion ychwanegol penodol sy'n gweithio gyda'r disgyblion hyn yn uniongyrchol neu'n rhoi arweiniad a chymorth i athrawon a staff cymorth eraill.

33 Mae diffygion yn y cymorth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn y rhan fwyaf o'r ysgolion cynradd bach sy'n cynnig gofal, cymorth ac arweiniad digonol yn unig. Y prif wendidau yn yr ysgolion cynradd bach hyn yw'r ffaith nad ydynt yn nodi anghenion disgyblion yn ddigon cynnar ac mae targedau mewn cynlluniau addysg unigol yn rhy generig.

34 Mae llawer o ysgolion cynradd bach yn tueddu i ganolbwyntio eu darpariaeth ar ddatblygu medrau disgyblion ym meysydd craidd iaith, mathemateg a gwyddoniaeth. O ganlyniad, mae safonau disgyblion fel arfer yn dda neu'n well yn y meysydd hyn. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ysgolion cynradd bach, nid yw cynllunio bob amser yn sicrhau bod disgyblion yn caffael gwybodaeth a dealltwriaeth ar lefel briodol yn y pynciau sylfaen, neu'u bod yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh ar draws y cwricwlwm yn effeithiol. Yn yr ysgolion hyn, nid yw'r cynllunio wedi'i addasu'n ddigon da i fodloni anghenion yr holl ddisgyblion, yn enwedig disgyblion mwy abl yng nghyfnod allweddol 2. Mae hyn yn fwyaf amlwg mewn ysgolion cynradd bach iawn, lle bernir bod darpariaeth y cwricwlwm yn ddigonol neu'n waeth mewn dros hanner yr ysgolion sydd â 30 o ddisgyblion neu lai.

### Addysgu

35 Mae ansawdd yr addysgu'n dda neu'n well mewn tua 80% o ysgolion cynradd o bob maint, heblaw mewn ysgolion cynradd bach iawn (gyda 30 o ddisgyblion neu lai) lle mae ansawdd yr addysgu'n dda neu'n well mewn 72% o'r ysgolion a arolygwyd. Gallai hyn adlewyrchu'r her fwy sy'n wynebu athrawon yn yr ysgolion bach iawn hyn gan fod yn rhaid iddynt addysgu ystod eang o oedrannau a galluoedd yn yr un dosbarth. Mewn rhai achosion, mae athrawon mewn ysgolion cynradd bach yn addysgu tri neu bedwar o grwpiau blwyddyn mewn un dosbarth ac mae'n anodd sicrhau bod y gwaith yn bodloni anghenion pob disgybl. Mewn rhai achosion, mae athrawon wedi goresgyn yr heriau hyn yn dda, yn enwedig yn nosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen, lle mae ffocws ar ddatblygu medrau disgyblion trwy gwricwlwm lle mae disgyblion yn dysgu trwy brofiadau uniongyrchol. Yn y dosbarthiadau hyn, yn aml, ceir cynorthwywyr addysgu sy'n gallu cynorthwyo disgyblion â gwahanol anghenion.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: arweinyddiaeth a gwella ansawdd

### Ansawdd arweinyddiaeth

36 Mae arweinyddiaeth ragorol mewn rhyw 13% o ysgolion cynradd mawr o gymharu ag 8% o ysgolion cynradd canolig a 3% o ysgolion cynradd bach.

37 Mae arweinyddiaeth yn ddigonol neu'n anfoddhaol mewn tua chwarter o ysgolion cynradd bach a chanolig. Mae hyn yn bennaf oherwydd diffygion mewn cynllunio strategol. Mae arweinwyr yn ansicr ynghylch blaenoriaethau eu hysgolion, ac yn aml, nid oes gan y staff synnwyr o ddiben a chyfeiriad cyffredin. Hefyd, nid yw rolau staff wedi'u diffinio'n ddigon clir ac ni chaiff cyfrifoldebau eu rhannu'n briodol i sicrhau bod gan bob aelod o staff feichiau gwaith cyflawnadwy a chytbwys.

38 Mae arweinyddiaeth yn ddigonol neu'n waeth mewn 47% o ysgolion sydd â 30 o ddisgyblion neu lai. Mewn ysgolion sydd â 31 i 60 o ddisgyblion, mae'r ffigur hwn yn gostwng i 29% ac mae'n disgyn eto i 22% mewn ysgolion gyda rhwng 61 a 100 o ddisgyblion. Ar hyn o bryd, nid oes llwybr hyfforddi systematig a chynhwysfawr i ddatblygu dealltwriaeth arweinwyr ysgol o faterion arwain a rheoli wedi iddynt gael y swydd.

39 Mewn ysgolion bach, mae gan benaethiaid gyfrifoldeb addysgu sylweddol fel arfer. Mae hyn yn cyfyngu ar yr amser y gallant ei neilltuo i ddatblygu eu dealltwriaeth o faterion arwain a rheoli ac adeiladu ar y wybodaeth y maent wedi'i chaffael wrth ddilyn y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth cyn eu penodi. Nid ydynt yn cael digon o amser i fyfyrio ar arfer ac ystyried ffyrdd gwell o weithio. Gall hyn gael effaith negyddol ar arweinyddiaeth, ansawdd ac effaith hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella.

40 Gallai arweinyddiaeth fod yn well mewn ysgolion mawr gan fod penaethiaid ysgolion mawr yn aml wedi bod yn benaethiaid mewn ysgolion bach neu'n benaethiaid neu'n ddirprwy benaethiaid mewn ysgolion canolig yn y gorffennol. Mae'r profiad helaeth hwn o arwain wedi rhoi cyfle iddynt ddatblygu casgliad eang o ddulliau arwain y gallant eu defnyddio i fynd i'r afael â materion amrywiol yn eu rolau presennol. O ganlyniad, maent wedi'u paratoi'n well i ddeall yr heriau wrth arwain sefydliadau

mawr cymhleth a sicrhau bod y prosesau cywir yn eu lle i sicrhau'r deilliannau gorau ar gyfer y disgyblion yn eu hysgolion.

41 Mewn ysgolion cynradd bach, lle mae niferoedd y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn yn aml yn fach iawn, gall cymariaethau ystyrlon am berfformiad cymharol fod yn fwy heriol, ac mae dealltwriaeth cyrff llywodraethol o faterion perfformiad yn aml yn llai sicr.

42 Yn y nifer fach iawn o ysgolion bach lle mae arweinyddiaeth yn rhagorol, mae'r penaethiaid wedi llwyddo i oresgyn rhai o'r rhwystrau sy'n cyfyngu ar effeithiolrwydd ac effaith arweinyddiaeth mewn ysgolion cynradd bach a bach iawn. Mae gwaith tîm ymhlith staff yn gryf iawn ac mae gan staff ddealltwriaeth a pherchnogaeth ar y cyd o gynlluniau a pholisïau. Yn yr ysgolion cynradd hyn, rhoddir pwyslais cryf ar roi cyfleoedd i ddisgyblion rannu eu safbwyntiau a chodi materion am wella bywyd ysgol. Ystyrir y safbwyntiau hyn, a gweithredir yn unol â nhw. Mae'r ysgolion cynradd hyn fel arfer yn gweithio mewn partneriaethau ag ysgolion eraill i ymestyn arbenigedd staff a gwella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion. Mewn rhai achosion, mae'r penaethiaid yn gyfrifol am fwy nag un ysgol fach neu maent yn arweinwyr ffederasiwn o ysgolion. Mae'r trefniadau hyn yn galluogi penaethiaid i ganolbwyntio ar arweinyddiaeth a gwella ansawdd er mwyn nodi strategaethau i godi safonau, a'u rhoi ar waith. Gallant weithredu mewn rôl arwain fwy strategol nag y byddent fel arall pe bai ganddynt gyfrifoldeb addysgu.

### Gwella ansawdd

43 Yn gyffredinol, mae prosesau gwell ar gyfer gwella ansawdd mewn ysgolion cynradd mawr a chanolig na mewn ysgolion bach. Y rheswm am hyn yw bod yr ysgolion cynradd hyn yn tueddu i gael gweithdrefnau hunanarfarnu mwy systematig. Mae cynnwys timau uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn y broses sicrhau ansawdd yn fwy datblygedig a'r duedd yw bod data'n cael ei ddefnyddio'n fwy effeithiol i nodi meysydd i'w gwella. Yn yr ysgolion cynradd hyn, mae cyfarfodydd staff yn canolbwyntio ar y broses gwella ysgolion ac mae deilliannau'n arwain at bwyntiau gweithredu i wella arfer. Hefyd, caiff penderfyniadau a wneir mewn cyfarfodydd blaenorol eu hadolygu'n rheolaidd i lywio cynnydd.

44 Mae gan bron i 40% o ysgolion cynradd bach systemau digonol neu waeth ar gyfer gwella ansawdd o gymharu â 30% o ysgolion cynradd canolig. Mae gwella ansawdd yn ddigonol neu'n waeth mewn hanner o'r ysgolion cynradd bach iawn (gyda 30 o ddisgyblion neu lai) a arolygwyd.

45 Y prif ddiffyg mewn ysgolion cynradd bach lle maent yn ddigonol yn unig o ran gwella ansawdd yw'r ffaith nad ydynt yn sefydlu prosesau hunanarfarnu'n llawn. Mewn llawer o'r achosion hyn, nid yw'r trefniadau sicrhau ansawdd yn ddigon ffurfiol ac ni chaiff cyfarfodydd eu cynnal yn systematig i adolygu targedau a monitro cynnydd. Nid yw'r ysgolion cynradd bach hyn yn gwybod beth yw eu cryfderau a'r meysydd i'w gwella ac nid yw'r cynlluniau datblygu ysgol yn cysylltu'n ddigon clir â gwella safonau disgyblion. Yn aml, nid oes gan yr ysgolion cynradd bach hyn hanes da o sicrhau gwelliannau, er enghraifft, trwy fynd i'r afael â'r argymhellion o arolygiadau blaenorol.

## Ysgolion uwchradd

### Ysgolion uwchradd mewn categori gweithgarwch dilynol ar gyfer 2010-2013

46 Mae angen llai o weithgarwch dilynol mewn ysgolion uwchradd mawr nag ysgolion bach neu ganolig. Dim ond un ysgol uwchradd fawr sydd wedi cael ei rhoi mewn categori statudol (gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig) yn dilyn arolygiad er 2010. Mae'r ffigurau ar gyfer gweithgarwch dilynol yn dangos bod ysgolion uwchradd bach a chanolig yn fwy tebygol o gael meysydd i'w gwella nag ysgolion uwchradd mawr.

47 Mae angen i gyfran fawr o ysgolion uwchradd bach gael eu monitro gan yr awdurdod lleol. Efallai mai'r rheswm am hyn yw, er bod perfformiad yn dda ar y cyfan, mae'r ysgolion bach hyn yn tueddu i gael mwy o faterion cymharol fach i fynd i'r afael â nhw.

**Ffigur 5: Ysgolion uwchradd mewn categori gweithgarwch dilynol ar gyfer 2010-2013**


| **Maint yr ysgol / niferoedd y disgyblion** | **Monitro gan Estyn neu'r awdurdod lleol** | **Mesurau arbennig neu welliant sylweddol** | **Cyfanswm mewn categori gweithgarwch dilynol** |
|---|---|---|---|
| Bach – 600 o ddisgyblion neu lai | 50% | 21% | 71% |
| Canolig – 601 – 1,100 | 40% | 22% | 62% |
| Mawr – Mwy na 1,100 | 42% | 4% | 46% |

## Canfyddiadau arolygu ysgolion uwchradd ar gyfer 2010-2013

48 Yn gyffredinol, bernir bod ysgolion uwchradd mawr yn well nag ysgolion uwchradd bach a chanolig ar bob dangosydd ansawdd arolygu. Mae'r gwahaniaethau mwyaf mewn profiadau arwain a dysgu, lle mae ysgolion uwchradd mawr gryn dipyn yn gryfach. Heblaw am un ysgol uwchradd fach, mae pob un o'r ysgolion uwchradd y barnwyd eu bod yn rhagorol yn rhai canolig neu fawr.

49 Dengys canfyddiadau arolygiadau bod cyfran uwch o ysgolion uwchradd mawr wedi cael dyfarniad da neu well ar gyfer pob un o'r dangosyddion ansawdd sydd wedi'u cynnwys yn yr astudiaeth hon o gymharu ag ysgolion uwchradd bach a chanolig. Mae'r bwlch ar ei fwyaf ar gyfer safonau, profiadau dysgu, arweinyddiaeth a gwella ansawdd.

**Ffigur 6: Canfyddiadau arolygu ysgolion uwchradd o 2010-2013**




50 Nodwedd gyffredin mewn ysgolion uwchradd llwyddiannus yw arweinyddiaeth gref. Pan mae arweinyddiaeth yn dda neu'n well, gall ysgolion uwchradd o bob maint lwyddo'n dda. Fodd bynnag, mae ffactorau'n ymwneud â darbodion maint, sy'n ei gwneud yn fwy heriol i ysgolion uwchradd bach berfformio'n dda mewn rhai agweddau ar eu gwaith. Fodd bynnag, pan mae arweinwyr mewn ysgolion uwchradd bach yn arloesol ac yn canolbwyntio ar wella perfformiad, gallant oresgyn y rhwystrau hyn a gall ysgolion uwchradd bach lwyddo, ac maen nhw'n llwyddo hefyd.

## Deilliannau: safonau a lles

### Safonau

51 Wrth farnu safonau, mae arolygwyr yn ystyried perfformiad ysgolion o ran data, a sut mae disgyblion yn caffael y medrau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i symud


ymlaen i'r cyfnod dysgu nesaf. Mae deilliannau arolygu yn dangos bod y rhain yn well mewn ysgolion uwchradd mawr yn gyffredinol.

52 Mae perfformiad yn well mewn ysgolion uwchradd mawr ar gyfer bron pob un o'r dangosyddion arholi ac asesu. Mae data Llywodraeth Cymru yn dangos bod canran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 3 yn well mewn ysgolion uwchradd mawr o gymharu ag ysgolion uwchradd bach a chanolig (ffigur 8). Mae'r bwlch mewn perfformiad rhwng yr ysgolion uwchradd bach a chanolig a'r ysgolion mawr wedi gostwng rhywfaint dros y tair blynedd diwethaf ar gyfer Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, er bod dim gwahaniaeth yn y bwlch perfformiad mewn Cymraeg.

53 Mae'r bwlch rhwng yr ysgolion uwchradd mawr a'r ysgolion uwchradd bach a chanolig yn fwy ar gyfer lefel 6 na lefel 5 ar gyfer Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae hyn yn golygu bod yr ysgolion uwchradd mawr yn darparu lefel fwy priodol o her a chymorth i'r disgyblion mwy abl ac yn eu galluogi i gyflawni'r lefelau uwch na'r disgwyl.

54 Mae cyfran uwch o ddisgyblion yn cyflawni lefel 6 mewn Cymraeg mamiaith mewn ysgolion uwchradd bach. Mae'n bosibl mai'r rheswm am hyn yw bod y rhan fwyaf o'r ysgolion hyn wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig, lle mae cyfran uwch o ddisgyblion yn siarad Cymraeg fel mamiaith.

**Ffigur 7: Canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig a'r lefel ddisgwyliedig ac un yng nghyfnod allweddol 3 yn ôl maint yr ysgol yn 2010-2012 (a)**





Nodiadau:

(a) Ysgolion uwchradd a gynhelir. Mae dosbarthu maint ysgol wedi'i seilio ar ddatganiad CYBLD.

(b) Mae tair ysgol nad ymddangosodd ar ddatganiad CYBLD 2012 (h.y. wedi cau erbyn hyn) wedi eu heithrio o'r dadansoddiad ar gyfer 2010, 2011 a 2012.

55 Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad disgyblion yn y pynciau craidd yn well mewn ysgolion uwchradd mawr o gymharu ag ysgolion uwchradd bach a chanolig. Yr eithriad yw Cymraeg mamiaith, lle mae ysgolion uwchradd bach a chanolig yn perfformio’n well nag ysgolion uwchradd mawr.

**Ffigur 8: Canran y disgyblion sy’n cyflawni’r lefel ddisgwyliedig yng nghyfnod allweddol 4 yn y pynciau craidd unigol yn 2010-2013 yn ôl maint yr ysgol (a)**




Nodiadau:

(a) Ysgolion uwchradd a gynhelir. Mae dosbarthu maint ysgol wedi’i seilio ar ddatganiad CYBLD.


(b) Mae tair ysgol nad ymddangosodd ar ddatganiad CYBLD 2012 (h.y. wedi cau erbyn hyn) wedi eu heithrio o’r dadansoddiad ar gyfer 2010, 2011 a 2012.

(c) Mae ffigurau trothwy lefel 2 yn defnyddio’r enwadur 'nifer y disgyblion 15 oed ar ddechrau’r flwyddyn academaidd' (**ac eithrio** Cymraeg Lefel 2, sy’n defnyddio’r enwadur 'nifer y disgyblion sy’n cofrestru ar gyfer Cymraeg mamiaith TGAU').

Mae darlun tebyg gyda chanran y disgyblion sy’n cyflawni trothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg. Mae’r dangosydd hwn tuag wyth pwynt canran yn uwch mewn ysgolion uwchradd mawr o gymharu ag ysgolion uwchradd bach a chanolig.

**Ffigur 9: Canran y disgyblion sy’n cyflawni trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg yn ôl maint yr ysgol yn 2010-2012 (a)**

Mae hyn yn cynnwys cymwysterau TGAU ac ystod o gymwysterau cyfwerth nad ydynt yn rhai TGAU, gan gynnwys cymwysterau galwedigaethol. Mae’n cynrychioli nifer y cymwysterau ar lefel 2 sydd gyfwerth â phum cymhwyster TGAU graddau A*-C, ond mae hefyd yn cynnwys cymwysterau TGAU mewn Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg, graddau A*-C.




Nodiadau:

(a) Ysgolion uwchradd a gynhelir. Mae dosbarthu maint ysgol wedi’i seilio ar ddatganiad CYBLD.

(b) Mae tair ysgol nad ymddangosodd ar ddatganiad CYBLD 2012 (h.y. wedi cau erbyn hyn) wedi eu heithrio o’r dadansoddiad ar gyfer 2010, 2011 a 2012.

(c) Mae ffigurau trothwy lefel 2 yn defnyddio’r enwadur 'nifer y disgyblion 15 oed ar ddechrau’r flwyddyn academaidd'.

## Lles

56 Mae lles yn dda neu’n well yn y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd mawr ac mewn llawer o ysgolion uwchradd bach a chanolig.

57 Bron ym mhob un o’r ysgolion uwchradd lle bernir bod lles yn ddigonol yn unig, mae diffygion mewn presenoldeb. Pan mae lles yn anfoddhaol, mae problemau ag ymddygiad disgyblion hefyd ac mae cyfraddau gwahardd yn uchel. Yn yr ysgolion hyn, mae safon wael lles yn cael effaith andwyol ar ddeilliannau disgyblion.

## Darpariaeth: profiadau dysgu ac addysgu

### Profiadau dysgu

58 Mae darpariaeth y cwricwlwm yn tueddu i fod yn ehangach ac yn fwy cytbwys mewn ysgolion uwchradd mawr. Bernir bod bron pob un o'r ysgolion uwchradd mawr yn darparu profiadau dysgu da neu well i'w disgyblion, tra bod profiadau dysgu'n dda neu'n well ym mwyafrif yr ysgolion uwchradd bach ac mewn llawer o ysgolion uwchradd canolig.

59 Mae ysgolion uwchradd sydd â darpariaeth dda neu well o ran y cwricwlwm yn cynnig ystod gyfoethog o gyrsiau ac maent wedi ymateb yn dda i ofynion Llwybrau Dysgu 14-19 trwy gynllunio pwrpasol ar y cyd â sefydliadau eraill. Maent yn cynnig darpariaeth gynhwysfawr sy'n galluogi disgyblion i ennill ystod o gymwysterau. Pan nad yw'r niferoedd sy'n dymuno dilyn cwrs penodol yn hyfyw mewn un lleoliad, gall ysgolion gydweithio i gynnig yr opsiynau.

60 Mae ysgolion uwchradd bach a chanolig yn tueddu i fod yn fwy dibynnol ar gefnogaeth y partneriaethau 14-19 i ddarparu ystod addas o gyrsiau i'w disgyblion. Pan mae'r partneriaethau hyn yn wan, mae'n llai tebygol y bydd ystod yr opsiynau ar gael mewn ysgolion uwchradd bach a chanolig. Mae gan ysgolion uwchradd fwy o ymreolaeth ac maent yn llai dibynnol ar bartneriaethau i ddarparu opsiynau cwricwlwm. Gallant fanteisio ar ystod ehangach o opsiynau oherwydd eu darbodion maint.

### Addysgu

61 Mae addysgu ac asesu yn dda neu'n well mewn 63% o ysgolion uwchradd mawr, ond mewn ychydig llai na hanner yr ysgolion uwchradd bach a chanolig. Mae addysgu yn rhagorol mewn 25% o'r ysgolion uwchradd mawr, ond yn rhagorol mewn 10% o ysgolion uwchradd canolig a 4% o ysgolion uwchradd bach yn unig.

62 Mewn ysgolion uwchradd mawr, mae gan adrannau pwnc fwy nag un athro gan amlaf, sy'n galluogi athrawon i rannu arfer dda a datblygu'r ffordd y maent yn cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm. Hefyd, mae sicrhau ansawdd yn tueddu i fod yn gryfach ac mae arweinwyr ysgol wedi datblygu systemau gwell i fynd i'r afael ag addysgu gwael. Mewn ysgolion uwchradd mawr, mae athrawon yn fwy tebygol o fod yn addysgu yn eu maes arbenigol eu hunain, tra bod athrawon mewn ysgolion bach a chanolig yn addysgu mewn meysydd y tu allan i'w pwnc arbenigol o dro i dro. Mewn rhai achosion, mae adrannau ysgolion uwchradd bach yn gweithio'n effeithiol gydag adrannau yn eu hysgol ac mewn adrannau tebyg mewn ysgolion cyfagos i rannu arfer dda ac elwa ar ddarbodion maint.

63 Mae gweithdrefnau asesu yn tueddu i fod yn gryfach mewn ysgolion uwchradd mawr. Mae hyn yn bennaf am fod arweinwyr ysgol yn yr ysgolion hyn yn fwy effeithiol o ran sicrhau dull cyson ysgol-gyfan o asesu, sy'n cael ei fonitro a'i arfarnu'n systematig. Dros gyfnod, caiff y dulliau hyn eu hymgorffori, eu gwella a'u datblygu ar draws pob maes pwnc. Mewn lleiafrif o ysgolion uwchradd bach a chanolig, nid yw gweithdrefnau asesu yn ddigon effeithiol. Yn aml, mae gormod o amrywiad rhwng adrannau. Nid oes gan yr ysgolion hyn ffocws a dull ysgol-gyfan o roi gweithdrefnau asesu ar waith, ac nid yw polisïau yn cael eu deall, eu gweithredu, eu monitro na'u harfarnu'n ddigon da.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: arweinyddiaeth a gwella ansawdd

### Arweinyddiaeth

64 Mae arweinyddiaeth o leiaf yn dda bron ym mhob ysgol uwchradd fawr a arolygwyd. Yn aml, mae gan benaethiaid mewn ysgolion uwchradd mawr hanes da mewn rolau arwain blaenorol fel dirprwy benaethiaid neu benaethiaid ysgolion llai. Mae ysgolion uwchradd mawr yn tueddu i gael strwythurau a phrosesau arwain cyson, hynod drefnus ac wedi'u hymgorffori'n dda, a threfniadau rheoli perfformiad effeithiol.

65 Mewn ysgolion uwchradd bach, mae gan gyfran fawr o staff gyfrifoldeb pwnc a chyfrifoldeb ysgol-gyfan. Mewn llawer o'r ysgolion uwchradd bach hyn, ceir cyfleoedd datblygiad proffesiynol da sy'n canolbwyntio ar ddatblygu medrau arwain generig. Gall y datblygiad proffesiynol hwn ddylanwadu'n gryf ar lawer o agweddau ar fywyd ysgol. Er enghraifft, mae arweinwyr canol yn aml yn arwain gweithgorau sy'n canolbwyntio ar feysydd penodol o'r cwricwlwm yn eu hysgolion ac felly'n datblygu eu medrau wrth ddadansoddi ac arfarnu safonau a darpariaeth. Maent yn datblygu prosesau effeithiol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion a dadansoddi data, y maent yn eu defnyddio i lywio addysgu a dysgu a chymell disgyblion i lwyddo. Fodd bynnag, pan na chaiff y rolau hyn eu cefnogi gan ddatblygiad proffesiynol da, mae diffygion bron bob amser yn effeithiolrwydd arweinyddiaeth ganol yn yr ysgolion uwchradd bach hyn.

66 Mater arwyddocaol sy'n berthnasol i ysgolion uwchradd bach ac ysgolion uwchradd canolig i raddau llai yw bod cynllunio dilyniant yn aml yn wan. Pan fydd aelodau allweddol o staff yn gadael yr ysgol, mae gormod o oedi fel arfer cyn y daw medrau newydd yn eu lle. Fel arfer, gall ysgolion uwchradd mawr wneud trefniadau tymor byr dros dro i fynd i'r afael â'r broblem hon, ond gan fod adrannau pwnc mewn ysgolion bach a chanolig yn cynnwys nifer fach o athrawon, gall un neu ddau o athrawon yn gadael gael effaith andwyol ar ddeilliannau disgyblion yn y meysydd pwnc sy'n cael eu haddysgu gan y staff hyn. Caiff hyn ei gymhlethu mewn meysydd pwnc lle mae prinder, fel gwyddoniaeth, ac mae'n broblem fawr mewn ysgolion gwledig ac ysgolion cyfrwng Cymraeg.

### Gwella ansawdd

67 Mae gwella ansawdd a sicrhau gwelliant yn dda neu'n well mewn llawer o ysgolion uwchradd mawr, mewn tua hanner o ysgolion uwchradd bach ac mewn lleiafrif o ysgolion uwchradd canolig.

68 Mewn ysgolion uwchradd bach a chanolig lle mae gwella ansawdd yn ddigonol neu'n waeth, nid yw uwch arweinwyr yn canolbwyntio'n ddigonol ar safonau a darpariaeth. Dylanwad rhannol yn unig a gaiff prosesau hunanarfarnu'r ysgolion ar gynllunio strategol, ac mae'r dystiolaeth o effaith y prosesau hyn ar wella deilliannau disgyblion yn gyfyngedig. Yn aml, nid yw dadansoddi data yn canolbwyntio ar ba mor dda y mae'r ysgol yn perfformio o gymharu ag ysgolion tebyg, ac nid yw staff yn dadansoddi'r setiau data craidd yn ddigon trylwyr i arfarnu perfformiad pob grŵp o ddisgyblion, yn enwedig disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. O ganlyniad, nid yw arweinwyr yr ysgol yn cymryd camau penodol i wella safonau ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr.

69 Pan geir diffygion mewn sicrhau ansawdd mewn ysgolion bach a chanolig, mae hyn yn aml am nad oes tystiolaeth i nodi'r hyn y mae angen ei wella. Mae hyn am nad yw medrau arweinwyr canol mewn hunanarfarnu wedi'u datblygu digon, yn enwedig eu medrau mewn arsylwi a dadansoddi effeithiolrwydd yr addysgu. Yn aml, mae diffyg cysondeb a gormod o amrywiad yn ansawdd arsylwadau gwersi a chraffu ar waith disgyblion. Mae arfarniadau o ansawdd yr addysgu a'i effaith ar ddysgu yn aml yn rhy fyr ac yn rhy gadarnhaol, ac ni chaiff meysydd i'w gwella mewn addysgu a dysgu eu blaenoriaethu'n ddigon da mewn cynlluniau adran. O ganlyniad, mae diffygion pwysig yn ansawdd cyffredinol yr addysgu yn hanner yr ysgolion hyn. Hefyd, mae gormod o amrywiad yn ansawdd cynllunio gwelliant ar lefel arweinyddiaeth ganol.

70 Hyd yn oed mewn ysgolion uwchradd mawr, nid yw effaith sicrhau ansawdd ar addysgu mor gryf ag ydyw mewn meysydd eraill. Pan mae sicrhau ansawdd yn rhagorol, mae arweinwyr ysgol yn canolbwyntio'n glir ar fynd i'r afael ag addysgu gwael trwy arsylwadau gwersi trylwyr a thargedau clir ar gyfer gwella. Bron ym mhob ysgol lle bernir bod yr addysgu'n rhagorol, mae prosesau sicrhau ansawdd rhagorol ar waith hefyd.

## Maint ysgolion ac amddifadedd

71 Mae'r dystiolaeth mewn penodau blaenorol yn awgrymu bod ysgolion mawr yn tueddu i berfformio'n well nag ysgolion bach a chanolig. Fodd bynnag, mae sawl ffactor yn gallu dylanwadu ar berfformiad ysgol yn ogystal â'i maint. Mae amddifadedd yn ffactor arall a all effeithio ar berfformiad ysgol. Mewn gwirionedd, mae tystiolaeth[3] gref bod ysgolion uwchradd mewn ardaloedd breintiedig yn tueddu i berfformio'n well nag ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig. Mae effaith amddifadedd ar berfformiad yn wannach mewn ysgolion cynradd.

72 Y mesur amddifadedd a ddefnyddir yn gyffredin yw canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd). Dangosir canran gyfartalog y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar gyfer yr ysgolion cynradd a arolygwyd yn y cylch hwn yn y tabl isod ar gyfer ysgolion o wahanol faint:

| | Disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd |
|---|---|
| Ysgolion cynradd bach | 17.2% |
| Ysgolion cynradd canolig | 22.9% |
| Ysgolion cynradd mawr | 20.2% |

73 Mae'r ffigurau hyn yn awgrymu nad ffactorau yn gysylltiedig ag amddifadedd yw'r rheswm y mae ysgolion cynradd mawr yn tueddu i berfformio'n well nag ysgolion cynradd bach. Mae gan ysgolion cynradd mawr lefelau PYDd uwch nag ysgolion cynradd bach ond mae eu perfformiad cyffredinol yn well ar gyfer pob un o'r dangosyddion ansawdd.

[3] Mynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion: cydweithio â'r gymuned a gwasanaethau eraill, Estyn, 2011
Mynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion, Estyn, 2010
Cyflawniad Academaidd a'r Hawl i Gael Prydau Ysgol Am Ddim yng Nghymru, 2012, SB 32/2013, Llywodraeth Cymru

74 Dangosir canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar gyfer yr ysgolion uwchradd a arolygwyd yn y cylch hwn yn y tabl isod ar gyfer ysgolion o wahanol faint:

| | Disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd |
|---|---|
| Ysgolion cynradd bach | 20.2% |
| Ysgolion cynradd canolig | 20.3% |
| Ysgolion cynradd mawr | 16.4% |

Mae'r ffigurau hyn yn awgrymu y gallai lefelau amddifadedd is esbonio pam mae ysgolion uwchradd mawr yn tueddu i berfformio'n well nag ysgolion uwchradd bach a chanolig. Ar gyfartaledd, mae llai o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim mewn ysgolion uwchradd mawr na mewn ysgolion uwchradd bach a chanolig. Mae dadansoddiad atchweliad ystadegol hefyd yn cadarnhau y gallai ysgolion uwchradd mawr wneud yn well nag ysgolion bach a chanolig ar gyfartaledd gan eu bod yn tueddu i fod yn fwy breintiedig.

## Atodiad 1: Sail y dystiolaeth

Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn defnyddio:

- tystiolaeth o sampl fawr o adroddiadau cynradd ac uwchradd ar gyfer y cyfnod rhwng Medi 2010 a Gorffennaf 2013, sy'n cynrychioli hanner yr ysgolion yng Nghymru;
- adroddiadau arolygu awdurdodau lleol a thystiolaeth o adroddiadau cylch gwaith; ac
- adolygiad o'r llenyddiaeth berthnasol, gan gynnwys y rhai a restrir isod.

**Cyhoeddiadau Estyn**

Adroddiadau Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2010-2011 a 2011-2012

Adroddiad i Is-bwyllgor Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru ar ysgolion bach (2008)

Ysgolion cynradd bach yng Nghymru (2006)

**Cyhoeddiadau eraill**

Cost of small primary schools in Wales – Review of evidence, Cambridge Policy Consultants (2010)

Dadansoddiad o Ariannu Ysgolion, Swyddfa Archwilio Cymru (2006)

## Atodiad 2: Nifer yr ysgolion a maint ysgolion

| | |
|---|---|
| **Ysgol gynradd fach iawn** | llai na 30 o ddisgyblion |
| **Ysgol gynradd fach** | 100 neu lai o ddisgyblion |
| **Ysgol gynradd ganolig** | 101- 300 o ddisgyblion |
| **Ysgol gynradd fawr** | 301+ o ddisgyblion |
| **Ysgol uwchradd fach** | 600 neu lai o ddisgyblion |
| **Ysgol uwchradd ganolig** | 601-1,100 o ddisgyblion |
| **Ysgol uwchradd fawr** | 1,100+ o ddisgyblion |

**Ffigur 10: Nifer yr ysgolion cynradd a gynhelir yn ôl maint yn 2011-2012:**

| Disgyblion ar y gofrestr (cyfwerth ag amser llawn) | Categori maint | Nifer yr ysgolion | Canran yr holl ysgolion cynradd |
|---|---|---|---|
| Hyd at 30 o ddisgyblion | Bach | 80 | 6% |
| 31-60 | | 158 | 11% |
| 61-100 | | 197 | 14% |
| **Hyd at 100 o ddisgyblion** | **Bach** | **435** | **31%** |
| 101-300 | Canolig | 763 | 54% |
| 301+ | Mawr | 214 | 15% |
| **Cyfanswm** | **Pob maint** | **1,412** | **100%** |

**Ffigur 11: Nifer yr ysgolion uwchradd a gynhelir yn ôl maint yn 2011-2012**

| Disgyblion ar y gofrestr | Categori maint | Nifer yr ysgolion | Canran yr holl ysgolion uwchradd |
|---|---|---|---|
| Hyd at 600 o ddisgyblion | Bach | 49 | 22% |
| 601-1,100 | Canolig | 120 | 54% |
| 1,100+ | Mawr | 52 | 23% |
| **Cyfanswm** | **Pob maint** | **221** | **100%** |

**Ffigur 12: Nifer yr arolygiadau mewn ysgolion cynradd a gynhelir yn ôl maint, 2010-2013**

| Disgyblion ar y gofrestr (cyfwerth ag amser llawn) | Categori maint | Nifer yr ysgolion | Canran yr arolygiadau |
|---|---|---|---|
| Hyd at 30 o ddisgyblion | Bach | 32 | 5% |
| 31-60 | | 68 | 10% |
| 61-100 | | 98 | 15% |
| **Hyd at 100 o ddisgyblion** | **Bach** | **198** | **30%** |
| 101-300 | Canolig | 358 | 55% |
| 301+ | Mawr | 100 | 15% |
| **Cyfanswm** | **Pob maint** | **656** | **100%** |

**Ffigur 13: Nifer yr arolygiadau mewn ysgolion uwchradd a gynhelir yn ôl maint, 2010-2013**


| Disgyblion ar y gofrestr | Categori maint | Nifer yr ysgolion | Canran yr arolygiadau |
|---|---|---|---|
| Hyd at 600 o ddisgyblion | Bach | 24 | 23% |
| 601-1,100 | Canolig | 58 | 55% |
| 1,100+ | Mawr | 24 | 23% |
| **Cyfanswm** | **Pob maint** | **106** | **100%** |

# Atodiad 3: Gweithgarwch dilynol 2010-2013

Mae'r siartiau swigod isod yn dangos lefelau gweithgarwch dilynol ar gyfer yr holl ysgolion a arolygwyd yn ystod tair blynedd gyntaf y cylch arolygu presennol. Mae'r siart yn cynnwys nifer yr ysgolion y nodwyd bod ganddynt arfer ragorol a'r ysgolion nad oes angen unrhyw lefel o weithgarwch dilynol arnynt (ysgolion y dyfarnwyd barnau da iddynt ar gyfer pob dangosydd ansawdd).


Mae'r siart gyntaf yn dangos bod arfer ragorol mewn ysgolion cynradd o bob maint, ond bod cyfran yr arfer ragorol yn cynyddu yn ôl maint yr ysgol yn gyffredinol. Mae hefyd yn dangos nad oes unrhyw ysgolion sydd â thros 350 o ddisgyblion yn y categorïau mwyaf difrifol o weithgarwch dilynol, sef gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig. Y gyfran uchaf o ysgolion y mae angen gweithgarwch dilynol arnynt yw'r rhai sydd â 50 o ddisgyblion neu lai. Y gyfran uchaf o ysgolion nad oes angen unrhyw weithgarwch dilynol arnynt neu sydd ag arfer ragorol yw'r rhai sydd â thros 350 o ddisgyblion, er bod y sampl hon yn gymharol fach.

**Ffigur 14: Categori gweithgarwch dilynol ar gyfer ysgolion cynradd a arolygwyd rhwng 2010 a 2013 yn ôl maint yr ysgol**



Mae'r ail siart yn dangos lefelau gweithgarwch dilynol ar gyfer ysgolion uwchradd. Yn gyffredinol, po fwyaf yw'r ysgol, po fwyaf yw cyfran yr arfer ragorol a'r lleiaf tebygol yw'r achosion o lefel ddifrifol o weithgarwch dilynol (gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig) ac mae ysgolion sydd â 900 o ddisgyblion neu lai yn fwy tebygol o fod angen gweithgarwch dilynol nag ysgolion sydd â thros 900 o ddisgyblion.

**Ffigur 15: Categori gweithgarwch dilynol ar gyfer yr holl ysgolion uwchradd a arolygwyd rhwng 2010 a 2013 yn ôl maint yr ysgol**




## Atodiad 4: Gwerth am arian

Er 2010, mae pob adroddiad arolygu ysgol yn dyfynnu'r gyllideb ysgol unigol (CYU) fel rhan o'r wybodaeth gyd-destunol. Mae awdurdodau lleol yn darparu cyllidebau i ysgolion yn unol â fformiwla y cytunwyd arno yn lleol. O gymharu CYU un ysgol ag un arall mewn awdurdod lleol gwahanol, mae dangosydd cymharol grai o'r adnoddau sydd ar gael i ysgol benodol oherwydd gallai gwasanaethau gwahanol gael eu darparu i ysgolion gan wahanol awdurdodau lleol.

Ym Mai 2010, cyhoeddwyd adroddiad[4] gan Cambridge Policy Consultants ar gost ysgolion cynradd bach yng Nghymru. Dengys eu dadansoddiad fod costau uned ysgolion cynradd yn cynyddu wrth i ysgol fynd yn llai. Mae costau uned yn gymharol sefydlog nes bod maint yr ysgol yn gostwng i ryw 90-100 o ddisgyblion pan fydd costau uned yn dechrau codi'n raddol. Mae'r cynnydd yn cyflymu pan fydd maint yr ysgol yn disgyn islaw 30. Ar gyfartaledd, mae gan ysgol sydd â llai na 30 o ddisgyblion gost uned sydd fwy neu lai ddwywaith cost uned ysgol sydd â thros 90 o ddisgyblion. Mae'r data mwy diweddar yn y siartiau isod yn adlewyrchu hyn hefyd.

**Ffigur 16: Cost fesul disgybl yn ôl maint yr ysgol (ysgolion cynradd yng Nghymru, 2012-2013)**




Ffynhonnell: Ystadegau Cymru, Cyllidebau ysgolion dirprwyedig fesul disgybl, yn ôl ysgol (2012-2013). Cafodd cyfanswm o 1,412 o ysgolion cynradd eu cynnwys yn y dadansoddiad.

Mewn ysgolion uwchradd, mae'r gyllideb ysgolion unigol fesul disgybl yn codi'n gyflym ar gyfer ysgolion sydd â llai na 400 o ddisgyblion (Ffigur 13). Yn gyffredinol, mae'r CYU rhwng £3,500 a £5,000 fesul disgybl.


Wrth arolygu gwerth am arian, mae arolygwyr yn ystyried effeithiolrwydd yr ysgol wrth sicrhau deilliannau priodol i ddisgyblion yn gyffredinol.

[4] Cost of small primary schools in Wales – Review of evidence, Cambridge Policy Consultants (2010)

Mae arolygwyr yn canolbwyntio ar y graddau y mae penderfyniadau ysgolion am wariant a chynllunio ariannol bras wedi'u seilio ar flaenoriaethau ar wella dros gyfnod. Mae arolygwyr hefyd yn ystyried i ba raddau y mae arweinwyr a rheolwyr yn gwybod costau rhaglenni a gweithgareddau presennol, yn eu hadolygu'n gyson ac yn cwestiynu a ydynt yn gost-effeithiol. Mae arolygwyr hefyd yn ystyried p'un a yw'r ysgol wedi nodi blaenoriaethau a meysydd i'w datblygu ac wedi dyrannu adnoddau'n briodol ac yn unol â meini prawf clir i adlewyrchu amcanion cytûn yr ysgol. Mae materion eraill, fel trefniadau cyllidebu, gan gynnwys trefniadau priodol ar gyfer cynlluniau wrth gefn, a'r cydbwysedd rhwng y cyfrifoldebau y mae llywodraethwyr yn ymgymryd â nhw a'r cyfrifoldebau hynny sy'n cael eu dirprwyo i'r pennaeth a'r staff, yn cael eu hystyried a'u harfarnu hefyd.

Mae'r farn a ddyfernir gan dimau arolygu ar gyfer gwerth am arian wedi'i halinio'n agos â'r farn ar gyfer safonau. Mae'n dilyn felly y bernir bod cyfran uwch o ysgolion mawr yn rhoi gwerth da neu well am arian nag ysgolion bach a chanolig, yn enwedig yn y sector uwchradd. Ond mae hi hefyd yn wir bod costau uned yn is mewn ysgolion mwy.

**Ffigur 17: Cost fesul disgybl yn ôl maint yr ysgol (ysgolion uwchradd yng Nghymru, 2012-2013)**




Ffynhonnell: Ystadegau Cymru, Cyllidebau ysgolion dirprwyedig fesul disgybl, yn ôl ysgol (2012-2013). Cafodd cyfanswm o 220 o ysgolion uwchradd eu cynnwys yn y dadansoddiad.

Mae ffactorau yn ymwneud â'r meini prawf gwahanol a ddefnyddir gan awdurdodau unigol i ddyrannu eu cyllid sy'n llunio barnau cyffredinol ar werth am arian mewn perthynas â maint ysgol yn llai sicr. Er enghraifft, mae costau cludiant, sy'n gallu bod yn uchel iawn ar gyfer ysgolion bach gwledig, wedi'u cynnwys yn y CYU ar gyfer rhai awdurdodau lleol ac nid rhai eraill.

## Atodiad 5: Geirfa

**Disgrifiadau barn:**

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** – | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** – | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** – | Cryfderau'n gorbwyso meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** – | Meysydd pwysig i'w gwella'n gorbwyso cryfderau |

Cyfrannau fel y'u defnyddir yn adroddiadau Estyn:

| Termau | Cyfrannau |
|---|---|
| Bron pob un | Gydag ychydig iawn o eithriadau |
| Y rhan fwyaf | 90% neu fwy |
| Llawer | 70% neu fwy |
| Mwyafrif | Dros 60% |
| Hanner | 50% |
| Tua hanner | Yn agos at 50% |
| Lleiafrif | Islaw 40% |
| Ychydig | Islaw 20% |
| Ychydig iawn | Llai na 10% |

## Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

| | |
|---|---|
| Clive Phillips | Awdur |
| Liz Miles | Aelod o'r tîm |